



Ein cyf AB/PO/92/2026

30 Gorffennaf 2026

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i gwestiwn y gwnaethoch ei ofyn yn ystod Cwestiynau Llafar y Cwnsler Cyffredinol ar 30 Mehefin ynglŷn â chynnig deddfwriaethol i sefydlu corff negodi ar gyfer staff cymorth ysgolion yng Nghymru. Mae'r mater hwn yn dod o fewn fy mhortffolio fel Gweinidog y Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg.

Rwy'n cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae staff cymorth ysgolion yn ei wneud i'r system addysg yng Nghymru. Mae eu gwaith yn rhan annatod o gefnogi dysgwyr, athrawon a gweithrediad effeithiol ysgolion.

Fel i mi egluro yn ystod y ddadl ar y mater hwn ar 10 Mehefin, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflog ac amodau staff cymorth ysgolion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda chyflogwyr, undebau llafur a'r gweithlu addysg ehangach i sicrhau bod staff ysgol yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn eu rolau. Rwy'n agored i ystyried pob opsiwn fel rhan o'r cam nesaf o'r gwaith. Gallaf weld y rhinweddau mewn corff statudol, a fyddai'n darparu trefniadau tebyg i'n staff cymorth i'r rhai sy'n cael eu sefydlu yn Lloegr. Fodd bynnag, byddai hyn yn cymryd amser i'w sefydlu. Mae gen i, felly, ddiddordeb mewn archwilio beth y gallem ei wneud heb ddeddfwriaeth i wneud gwahaniaeth yn gyflymach.

Mae fy swyddogion bellach yn gweithio gyda'n partneriaid cymdeithasol i gwmpasu'r opsiynau er mwyn pennu'r ffordd orau ymlaen.

Yn gywir,

Anna Brychan AS/MS
Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg
Cabinet Minister for Education and the Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ann.Brychan@llyw.cymru
Correspondence.Ann.Brychan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.